

Cyngor Tref Criccieth

COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR TREF A GYNHALIWYD AM 7.000y.h. NOS LUN 13
GORFFENNAF 20015 YN SIAMBR Y CYNGOR TREF, STRYD FAWR CRICCIETH.

Gweddi Agoriadol.

.....
Cymerwyd y Weddi agoriadol gan y Cyng. R T Price.

Cof;-0107/15 Presennol

.....
Cadeirydd, Cyng. W A Evans
Is Gadeirydd Cyng. R Cadwalader
Cyng.Eiwryn Williams.
Cyng.Sian Williams.
Cyng.R T Price.
Cyng.Elisabeth Regan.
Cyng.Dafydd Lloyd.
Cyng.Wayne Roberts.
Cyng.Phil Jones.
Cyng. Elisabeth George.
Cyng. Henry Jones.

Cof;-0207/15 Ymddiheuriadau.

.....
Cyng. Dr. E Tudor Jones.

Cof;-0307/15 Datgan Diddordeb.

.....
Bu i'r Cyng Wayne Roberts ddatgan diddordeb mewn gohebiaeth ynglyn a chais cynllunio "The Old Boatshed"

Cof;-0407/15 Cadarnhau Cofnodion Mis Mehefin.

.....
Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod Mis Mehefin fel rhai cywir a llofnodwyd hwy felly yn unol â'r gyfraith.

Cyngor Tref Criccieth

Cof;-0507/15 Materion yn codi trwy ohebiaeth.

.....
a) Llythyr Network Rail

Derbyniwyd llythyr oddi wrth Network Rail yn egluro fod ei dîm cynnal a chadw yn ymchwilio i bob achos unigol a geir yn datgan pryder hyn yn cynnwys ardaloedd lle mae'r Japanese Knotweed mae rhaglen wedi ei threfnu i'w chwistrellu yn rheolaidd rhwng Ebrill a Medi.

Gall y chwyn yma gymryd hyd at 6 wythnos i ddangos arwyddion ei fod yn dechrau marw a rhaid yw rhoi triniaeth ychwanegol iddo o dro i dro, am gyfnod hyd at 5 mlynedd.

PENDERFYNIAD;-Derbyn y wybodaeth

b) Llwybr Rhif 11.

Derbyniwyd gohebiaeth oddi wrth adran Hawliau Tramwy Cyngor Gwynedd yn egluro ei fod oherwydd cymhlethdod y mater yn darparu gwybodaeth /tystiolaeth ar gyfer cael Cyngor gan Gwnsler y Frenhines

Yn fras mae'n debyg fod y llwybr yma wedi ei gofrestru gyda rhwystrau yn ôl yn y 1950au, hynny yw mae'r rhwystrau yn cael ei dangos fel cyfyngiad (limitations) ar y llwybr,

Fel yr arfer disgwylir i glwyd neu gamfa gael ei gofnodi fel cyfyngiad ar lwybr sydd yn rhoi caniatâd cyfreithiol i gael ar draws y llwybr. Yn anffodus yn yr achos yma mae i'w weld bod y rhwystr sef bwlch wedi ei lenwi gyda cherrig a 2 gainc weiren bigog. Wedi ei gofnodi fel cyfyngiad.

Y cwestiwn a ofynnir i gwnsler y Frenhines yw, oes modd gorfodi'r perchennog i symud y rhwystrau er mwyn ail greu bwlch oedd yn wreiddiol ar y llwybr yma.

PENDERFYNIAD;-Derbyn y wybodaeth a rhoi'r mater ar raglen Mis Medi o'r Cyngor Tref.

c) Gor-dyfiand ar yr Esplaned.

Yn dilyn cwyn gan y Cyngor Tref am y gordyfiand derbyniwyd ymateb oddi wrth adran Forwrol Cyngor Gwynedd yn cadarnhau ei bod am archwilio'r safle, ond ar hyn o bryd ni Ragwelir y bydd gweithredu gan nad yw'r sefyllfa yn ddifrifol flêr o'r hyn a welwyd yn y lluniau.

PENDERFYNIAD;-Derbyn yr wybodaeth ac aros am lythyr pellach oddi wrth Gyngor Gwynedd ar ôl iddynt gael cyfle i asesu'r safle.

d) Cofeb i'r French Commandos

Derbyniwyd oddi wrth yr Aelod o'r cyhoedd ohebiaeth bellach ar y mater o osod plac yn y Dref er cof am y French Commandos.

Mae'r cyfaill o'r farn y dylai'r plac fod mewn lle amlwg i'r cyhoedd i'w weld, ar le mwyaf amlwg sydd yn sefyll allan yw ar y wal o dan Llety.

1. Bydd angen i'r Cyngor Tref gyfieithu'r eirfa i'r Gymraeg.
2. Amcangyfrif y gost o'i ddarparu yn £809.03 ac mae'r ysgrifennydd yn fodlon ysgwyddo hyn
3. Cost y gosod fydd tua £252.00 a gofynnir i'r Cyngor Tref gyfarfod hyn
4. Y Cyngor i gymryd y cyfrifoldeb o'i gynnal a'i gadw ar ôl ei osod.
5. Y Cyngor i sicrhau caniatâd gosod y plac ar y wal yn y lleoliad uchod.

Cyngor Tref Criccieth

PENDERFYNIAD;-

- 1 Cyfarfod y costau gosod
- 2 Gofyn i'r Cyng. Dr E Tudor Jones gyfieithu'r plac i'r Gymraeg
3. Gofyn i'r clerc gael hawl gosod gan berchnogion y wal.

Cof;-0607/15 Ceisiadau Cynllunio.

.....
Dim ceisiadau i law.

Cof;-0707/15 Adroddiad Archwiliwr allanol ar gyfrifon 2014/15

.....
Adroddodd y Clerc iddo dderbyn adroddiad yr Archwilwr ar gyfrifon y Cyngor am 2014/15 ac iddo gadarnhau ar sail ei adolygiad fod yr wybodaeth yn y ffurflen flynyddol yn ei farn ef yn cydymffurfio ag arferion priodol ac nad oes unrhyw faterion wedi dod i'w sylw i achosi pryder nad yw'r ddeddfwriaeth a'r gofynion rheoleiddio perthnasol wedi ei bodloni.

PENDERFYNIAD;-Derbyn y wybodaeth.

Cof;-0807/15 Ail Strwythuro Gwasnaeth Cofrestru.

.....
Derbyniwyd llythyr oddi wrth Gyngor Gwynedd yn egluro oherwydd y gostyngiad sylweddol yn ei gyllideb mae rhaglen o arbedion effeithlonrwydd wedi ei gymeradwyo gan Gabinet Cyngor Gwynedd sydd yn effeithio ar bob adran o'r Cyngor. Un o'r cynlluniau oedd i ail strwythuro'r gwasanaeth cofrestru yn ardal Dwyfor a Meirionydd, ar hyn o bryd cynigir y gwasanaeth ym Mhwillheli, Dolgellau, Bala Towyn a Phorthmadog. O dan y trefniant newydd bydd oriau agor Pwllheli a Dolgellau o 10.00y.b i 12.00 Dydd Llun i Ddydd Gwener ac ni fydd cynnig gwasanaeth yn y Bala Porthmadog na Thywyn.

PENDERFYNIAD;-Derbyn y wybodaeth.

Cof;- 0907/15 Parcio Lon Merllyn

.....
Tynnwyd sylw gan Aelod fod parcio moduron yn achosi rhwystr i fynedfa llwybr yr arfordir

PENDERFYNIAD;- Anfon at Gyngor Gwynedd yn tynnu ei sylw at hyn.

Cyngor Tref Criccieth

Cof;-1007/15 Llyfrgelloedd y Sir

Derbyniwyd gwahoddiad i gynrychiolydd o'r Cyngor gydag un arall a all fod yn ddefnyddiwr y gwasnaeth i weithdy fel rhan o'r ymgynghoriad ar ddyfodol gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd yng Nghanolfan Celfyddydau Porthmadog am 6.00 yr hwyr Nos Fercher 15 Gorffennaf.

PENDERFYNIAD;-Etholwyd y Cyng. Robert Cadwalader a Sian Williams gyda'r Cyng. Phil Jones yn eilydd i fynychu'r cyfarfod ym Mhorthmadog.

Cof;- 1107/15 Cais Cynllunio ar "the Old Boatshed" y Promenad.

Derbyniwyd ateb i ymholiad y Cyngor Tref oddi wrth Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio yn egluro.

Yn unol â dymuniad y Cyngor Tref adroddodd fod copi o'r dyfarniad a'r amodau wedi ei atodi ond yn anffodus ni fu ei derbyn.

Eglurodd ymhellach nad oes gofyn statudol ar fonitro holl ddatblygiadau sydd yn derbyn caniatâd cynllunio ac felly nid oes trefniadau mewn llaw ar gyfer monitro'r safle yma yn benodol.

Er hyn mae gwasanaeth gorfodaeth yn gwneud gwaith rhagweithiol ar sail sampl o geisiadau a ganiatawyd, yn yr un modd pe bai gan y Cyngor Tref neu'r Aelod lleol unrhyw dystiolaeth o dor amod bydd y Swyddog monitro yn ddiolchgar o dderbyn gwybodaeth, fel y gellir archwilio'r mater.

O safbwynt y caniatâd cynllunio penodol mae'r amod sydd yn ymwneud a rheoli'r uned fel nad yw yn brif fan byw gan unigolyn yn amod safonol cnedelaethol, Defnyddir yr amod hwn gan Arolygwr cynllunio Llywodraeth Cynru, ac felly fe'i defnyddir yn rheoliad gan Gyngor Gwynedd.

O safbwynt ymholiad am faint o dai o fewn y gymuned sydd wedi ei gofrestru fel busnes cadarnheir nad yw'r uned gynllunio yn casglu'r wybodaeth yma er hynny yn dilyn ymholiad gyda'r Uned Trethi deallir mai fel unedau hunan gynhaliol yr adnabyddir "tai gwyliau" o fewn cyfundrefn trethi busnes a bod 26 uned o'r disgrifiad yma o fewn cymuned Criccieth..

Fel sydd wedi ei egluro eisoes mae sylwadau Cyngorau yn cael ei gyfrif fel un sylw.

Yn ogystal gall yr Aelod lleol gyflwyno cais ysgrifenedig o fewn yr amserlen fel bod y mater yn cael ei gyfeirio at y pwyllgor cynllunio i wneud penderfyniad arno.

PENDERFYNIAD;-Ym marn yr holl Aelodau yr oedd y penderfyniad i ganiatáu'r cais yma yn benderfyniad difrifol iawn a mwy na hyn fod un swyddog yn gallu gwneud penderfyniad yn groes i ddymuniadau'r Cyngor Tref, felly mae angen anfon yn ôl at Gyngor Gwynedd yn pwysleisio fod ei drefn o benderfynu ar geisiadau cynllunio yn annheg iawn pan mae Cyngorau Bro a Thref yn gwrthwynebu

Dylai unrhyw gais sydd yn cael ei wrthwynebu ganddynt fel mater o drefn fynd i bwyllgor yn hytrach na rhoi hawl i swyddog benderfynu.

Rhaid cofio fod Aelodau Cyngorau Bro a Thref wedi ei ethol gan ei gymuned i warchod y gymuned a gwneud penderfyniadau ar ei rhan

Anfon at Gyngor Gwynedd i dynnu ei sylwi hyn a hefyd anfon at holl Gyngorau Bro a Thref y Sir i gael ei mewnbwn hwy i hyn.

Cof;- 1207/15 Cymynrodd J T Roberts

Cof;- 1207/15 Cymynrodd J T Roberts

Adroddodd y Clerc i gynrychiolaeth o'r Cyngor gyfarfod swyddogion "Age Cymru" i drafod ymhellach y gymynrodd.

Y prif bwyntiau a oedd angen sylw'r Cyngor llawn oedd:-

1 Cefnogaeth i wario arian ar I T ar gyfer cynnal cyrsiau i Aelodau hyn y gymuned

Cyngor Tref Criccieth

2 Cyfrannu hyd at £50 gyfer taci i Aelodau hyn a bregus allu mynd i gyfarfod ym Mhentrefelin unwaith yr wythnos

PENDERFYNIAD;-Rhoi cefnogaeth i Age Cymru i;-

1 Gyfarfod costau taci i gludo Aelodau hyn a methodig y Dref i Bentrefelin unwaith y mis i gyfarfod yr henoed ar yr amod bod y defnyddwyr yn cyfrannu rhywfaint at y gost.

2 Cefnogi'r syniad o gael WiFi yn y Ganolfan dydd ar yr amod fod y rhai fyd yn mynychu'r cyrsiau yn cyfrannu at y costau.

Cof;- 1307/15 Derbyniadau.

.....
Dim derbyniadau i law.

Cof;-1407/15 Taliadau.

.....

£ 98.00 Cyllid y Wlad (PAYE)	100958
£354.00 UHY Hacker Young Archwiliad Cyfrifon 2014/15	100959
£439.99 Atkin Groundowrks –cynnal a chadw llwybrau	100960
£240.00 Dream Internet Solutions –cynnal y Wefan	100961

PENDERFYNIAD;- Derbyn y wybodaeth a rhoi hawl i'r Clerc dalu yr oll o'r biliau.

Daeth y cyfarfod i ben am;- 7.45.y.h.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor Nos Lun14 Medi 2015

Bydd rhaglen y cyfarfod yma yn cau 4 Medi 2015.
